Cyngor Sir y Fflint

Rhaglen Datblygu Llywodraethwyr Ysgol Tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn 2011-12

A fyddech gystal â dosbarthu'r ddogfen hon i'ch Corff Llywodraethu

CYFARWYDDIAETH DYSGU GYDOL OES

Croeso i rifyn Tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn 2011-12 o'ch rhaglen datblygu llywodraethwyr.

Mae Sir y Fflint yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar y ddarpariaeth ddatblygu llywodraethwyr. Unwaith eto mae sesiynau hyfforddi ar y cyd wedi eu cynnwys yn y rhaglen hon. Mewn modd tebyg, darperir hyfforddiant a chymorth datblygu drwy waith partner gyda Llywodraethwyr Cymru a'r Ganolfan Gymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil. Mae mwy o'u cyflwyniadau bywiog sy'n ysgogi'r meddwl wedi eu hamserlennu eto.

Rwy'n ceisio teilwrio'r rhaglen ddigwyddiadau i weddu'r anghenion datblygu gwahanol sydd gan lywodraethwyr, yn hen a newydd, tra'n sicrhau amser i roi sylw i'r 'pynciau llosg' hynny! Daliwch ymlaen i ddweud wrthyf beth hoffech chi weld mwy ohono, a llai ohono.

Mae Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Sir y Fflint yn parhau i gwrdd yn dymhorol. Unwaith eto manteisiaf ar y cyfle yma i'ch atgoffa mai'ch Cymdeithas chi yw hon a'r gobaith yw y bydd pob corff llywodraethu yn enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd. Yn ogystal ag edrych ar faterion cenedlaethol, mae'r fforwm yn darparu cyfle i drafod materion lleol.

Mae presenoldeb llywodraethwyr mewn digwyddiadau hyfforddi a datblygu yn cael eu meincnodi drwy Gymru. Cynrychiolwyd 79% o

ysgolion mewn digwyddiad datblygu llywodraethwyr yn 10/11, gyda 371 ohonoch yn bresennol. Felly daliwch ymlaen â'r gwaith da a rhannwch eich gwybodaeth gyda gweddill eich corff llywodraethu. Fodd bynnag, mae lle i wella, am mai dim ond 30% o'r llywodraethwyr sydd gennym yn yr Awdurdod yw hyn! Rhowch wybod imi, os gwelwch yn dda, sut y medrwn ni annog mwy i'w mynychu.

Fe welwch o'r rhaglen fod llawer o'r digwyddiadau i'w cynnal unwaith eto yn Neuadd y Sir. Fel pob maes gwasanaeth rwy'n brwydro gyda'r angen i dynhau'r gwregys ac arbed arian! Fodd bynnag, does dim rhaid i neb boeni - mae'r gyllideb te a bisgedi yn ddiogel!

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn y digwyddiadau.

Kim Brookes, ACIS; DBA
Rheolwr Staffio a Llywodraethu Ysgolion
Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.
E-bost kim_brookes@flintshire.gov.uk

Sut i archebu lle

- Nodwch amser a lleoliad pob digwyddiad – mae'r rhain yn amrywio!
- Cynadleddau Dydd: fe'u cyfyngir i un cynrychiolydd o bob Corff Llywodraethu er bod modd neilltuo lle ychwanegol os

bydd rhai ar gael. A fyddech gystal â chydlynu'r broses o archebu lle drwy eich Clerc/Cadeirydd

- Cyfarfod o'r Gymdeithas Llywodraethwyr: cedwir lleoedd ar gyfer cynrychiolwyr enwebedig o bob corff llywodraethu
- Digwyddiadau ar y cyd rhwng awdurdodau: Oherwydd maint yr ystafell mae'n bosib y bydd cyfyngiad ar nifer y llywodraethwyr sy'n gallu archebu lle. Yn achos digwyddiadau a rennir, mae'n bosib bydd rhaid cyfyngu ar niferoedd.
- Fe'ch cynghorir i archebu'n gynnar
- I archebu lle dylech gwblhau a dychwelyd y ffurflen archebu amgaeedig i'r Adran Staffio a Llywodraethu neu ddanfon e-bost at faye.davey@flintshire.gov.uk

Lleoliad a lluniaeth

- Mae amseroedd a lleoliadau yn amrywio. Nodwch beth yw'r lleoliad wrth archebu lle
- Darperir pryd ar sesiynau diwrnod llawn
- Darperir lluniaeth ysgafn ym mhob cwrs
- A fyddech gystal â nodi unrhyw anghenion dietegol neu fynediad wrth archebu lle?

Canslo

- Gwerthfawrogwn eich bod yn rhoi o'ch amser i fynychu'r digwyddiadau yma ac rydym yn cydnabod y gallai

amgylchiadau newid o bryd i'w gilydd gan olygu nad oes modd ichi fynychu wedi archebu lle. O hysbysu'r swyddfa mewn da bryd os nad oes modd ichi fod yn bresennol, byddwn yn gallu cynnig y lle i lywodraethwr arall sydd ar restr aros y digwyddiad, a bydd y digwyddiad yn fwy cost-effeithiol. Diolch ichi am eich cefnogaeth.

- Rhowch wybod inni os oes gennych unrhyw ofynion penodol er mwyn inni fedru'ch cynorthwyo i gael y gorau o'r digwyddiad.
- Tra nad yw hi'n bosib darparu sesiynau trwy gyfrwng y Gymraeg bob tro, bydd pob deunydd perthnasol ar gael yn ddwyieithog.
- Mae'n bosib y bydd rhaid canslo rhai digwyddiadau am resymau nad oes modd eu rhagweld. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i hysbysu'r cynrychiolwyr hynny a archebodd le.

Manylion cefndir am y cyflwynwyr allanol:

Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru

Bu Ray yn gweithio gyda Corus am dros 30 mlynedd mewn rolau rheoli amrywiol ac mae ganddo ystod eang o arbenigedd mewn rheoli adnoddau dynol.

Bu'n uwch aseswr ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth Ewropeaidd EFQM a Gwobr Ansawdd Cymru am sawl blwyddyn ac mae hefyd yn aelod o'r Panel Cydnabod Buddsoddwyr mewn Pobl yng Nghymru.

Mae gan Ray dros ddeuddeg mlynedd o brofiad o wasanaethu fel llywodraethwr mewn coleg ac ysgol uwchradd ac ar hyn mae'n Gadeirydd y Llywodraethwyr ar Ysgol Uwchradd.

Nodyn y Golygydd: "Yn rhinwedd ei waith fel Swyddog Datblygu Rhanbarthol, mae Ray wedi darparu cymorth hyfforddi ardderchog ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint tros sawl blwyddyn, ac mae'r gwaith partner gyda Llywodraethwyr Cymru yn cael ei gydnabod gan Estyn fel patrwm ar gyfer arfer gorau – ac mae Ray yn greadigol gyda thechnoleg gwybodaeth – sydd o fudd mawr i'r Golygydd!"

Terry O' Marah

Terry oedd Rheolwr y Gwasanaeth Arolygu a Chynghori (Gwasanaeth Cefnogi'r Cwricwlwm) ar gyfer y pedwar Awdurdod Unedol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Wedi ymddeol o'i swydd gydag Awdurdod Lleol Sir y Fflint, treuliodd y blynyddoedd diwethaf fel Arolygwr Cofrestredig ar gyfer Ysgolion Uwchradd gan weithio ar gyfer Estyn. Mae Terry yn llywodraethwr mewn ysgol uwchradd, mae ar hyn o bryd yn Gadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint ac yn aelod o Bwyllgor Rheoli Llywodraethwyr Cymru.

Nodyn y Golygydd: "Rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawn gan Terry ar gyfer rhaglen hyfforddi Llywodraethwyr Sir y Fflint - yn enwedig ei wybodaeth 'o'r tu fewn' fel Arolygwr

profiadol - ac mae'n dda iawn gyda rhifau, sydd o fudd mawr i'r Golygydd!"

Steve Gullick, Rheolwr, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, Prifysgol Fetropolitan Abertawe.

Steve yw Rheolwr Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Sefydlwyd y ganolfan ym Mawrth 2000. Ei nodau yw ymchwilio llywodraethu mewn ysgolion gyda phwyslais penodol ar hyfforddi llywodraethwyr, a darparu addysg a hyfforddiant ymarferol, o ansawdd uchel ar gyfer llywodraethwyr ysgol. Mae'r cylch gwaith Cymru gyfan sydd gan y Ganolfan yn unigryw yn y Deyrnas Unedig.

Ers ei ddechreuad mae'r Ganolfan wedi cynhyrchu rhaglenni hyfforddi cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar rolau cynllunio strategol cyrff llywodraethu, gosod targedau a monitro ac arfarnu; rôl y clerc; rôl y gadair, a thrafod cwynion. Cyn iddo ymddeol roedd Steve yn bennaeth mewn ysgol uwchradd, ac mae wedi gwasanaethu fel llywodraethwr ysgol.

Nodyn y Golygydd: Mae Steve wedi bod yn hyfforddi llywodraethwyr yn Sir y Fflint tros sawl blwyddyn gan ennill adborth gwych. Mae ei arddull storïol yn un difyrrus - er mai un 'o'r Cymoedd' ydyw - ond 'gog' sy'n siarad, a dyna beth fyddai ef yn disgwyl imi ei ddweud!"

MATERION IECHYD A DIOGELWCH

Dyddiad: **Dydd Mercher 21 Medi 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Trosolwg o'r Cwrs:

Ydych chi'n ymwybodol o'ch cyfrifoldebau fel llywodraethwr?
Adnabod y prif feysydd cyfrifoldeb ar gyfer llywodraethwyr;
Amlinellu'r Broses Asesu Risg;
Hysbysu llywodraethwyr ynghylch polisïau a gweithdrefnau perthynol yr Awdurdod gan gynnwys cyflwyno System Reoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yr Awdurdod;
Rhannu enghreifftiau o ymarfer da a drwg;
Hysbysu llywodraethwyr ynghylch y mecanweithiau cefnogi sydd wedi eu sefydlu i'w cynorthwyo i gwrdd â'u cyfrifoldebau

Hwylusydd:

CELIA MEREDITH, CMIOSH
Ymarferydd Iechyd a Diogelwch Siartredig, Cyngor Sir y Fflint

‘ANELU AM AUR’
MARC ANSAWDD AR GYFER LLYWODRAETHWYR YSGOL

Dyddiad: **Dydd Llun 26 Medi 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Cynigir y sesiwn hwn fel digwyddiad ar y cyd gyda llywodraethwyr o Sir Ddinbych a Wrecsam.

Trosolwg o’r sesiwn

Cyflwyno’r Marc Ansawdd ar gyfer cyrff llywodraethu:

Beth yw ‘Marc Ansawdd’?

Ystyried sut gall cyrff llywodraethu ddefnyddio’r model Marc Ansawdd i arddangos eu bod wedi sefydlu prosesau ansawdd sy’n effeithio llwyddiannau ysgolion;

Ddangos sut mae Estyn yn ystyried y wobr Marc Ansawdd wrth archwilio ‘arweinyddiaeth a rheolaeth’ fel rhan o’r Fframwaith Arolygu Cyffredin;

Edrych ar egwyddorion y model yma o hunanwerthuso;

Mae’r Marc Ansawdd ar gyfer llywodraethu ysgolion yn cydnabod arfer da – sut mae rhannu hyn;

Hwylusydd

Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru

PARCHU ERAILL – CANLLAWIAU GWRTH-FWLIO

Dyddiad: **Dydd Mawrth 27 Medi 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Trosolwg o'r sesiwn

Codi ymwybyddiaeth ynghylch canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymateb Sir y Fflint;

Ystyried offer a thechnegau hunanasesu, gweithdrefnau a chofnodi;

Codi ymwybyddiaeth ynghylch y pecyn cymorth ar gyfer y cwricwlwm;

Ystyried gwybodaeth ar gyfer rhieni a disgyblion;

Seiberfwlio - beth yw hyn a beth fedrwn ni ei wneud ynghylch y peth?

Hwyluswyr

Paula Roberts, Cynghorydd Dysgu ar gyfer Ymddygiad ac Emma Murphy, Swyddog Gwybodaeth ac Ymglymiad, Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

GWYBODAETH, CYFATHREBU A THECHNOLEG MEWN YSGOLION

Dyddiad: **Dydd Llun 3 Hydref 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Trosolwg o'r sesiwn:

Codi ymwybyddiaeth o'ch cyfrifoldebau tuag at ddata ysgol;
Cadw'ch data yn ddiogel ac osgoi cosbau ariannol trwm!;
Sut mae cael mynediad i'ch gwybodaeth ysgol?
'Moodle' – beth yw hyn?

Hwylusydd:
ANDY WOOD, CYNGHORYDD TGCh

CYNHADLEDD AR RÔL CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR

Dyddiad: **Dydd Iau 6 Hydref 2011**

Amser: **9.30am – 3.00pm**

Lleoliad: **Gwesy'r Beaufort Park, Ffordd Alltami, New Brighton,**
Ger Yr Wyddgrug, CH7 6RQ

Digwyddiad ar y cyd yw hwn ar gyfer Cadeiryddion llywodraethwyr Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych.

Arddull ryngweithiol ac anffurfiol fydd i'r dydd, gyda chyfle i rwydweithio. Nod y diwrnod yw darparu gwybodaeth a hysbysrwydd ar gyfer Cadeiryddion i'w galluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau yn effeithiol er mwyn hyrwyddo safonau uchel eu hysgol.

Trosolwg o'r Gynhadledd:

Fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraethu; rôl strategol llywodraethwyr; datblygu arweinyddiaeth o fewn yr ysgol; hunanwerthuso gan y corff llywodraethu; deall data perfformiad ysgol

Hwyluswyr:

Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr
Swyddogion Ymgynghorol yr Awdurdod Lleol
Llywodraethwyr Cymru

FFRAMWAITH EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION
"TU HWNT I'R RHETHREG"

Dyddiad: **Dydd Mawrth 11 Hydref 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Trosolwg o'r sesiwn

FfEY: Y gyfrinach orau yng Nghymru? Beth yn union mae hyn yn ei olygu i chi fel llywodraethwr mewn rôl arwain?
Sut mae lleihau effaith anfantais ar gyrhaeddiad?
Strategaethau a brofwyd a fydd ar gael ar y noson!

Hwylusydd

Neil Gibbons, Cynghorydd Effeithiolrwywdd Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint; Cynghorydd Proffesiynol (AdAS) Llywodraeth Cymru

RÔL DISGYBL LYWODRAETHWYR CYSWLLT a CHYFRANOGIAD DISGYBLION

Dyddiad: **12 Hydref 2011**

Amser: **9.30am – 12.00 Hanner dydd**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Digwyddiad ar y cyd yw hwn gyda llywodraethwyr o Sir Ddinbych a Wrecsam

Trosolwg o'r sesiwn

Rhagymadrodd; Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Diffiniad o gyfranogi; O bolisi i ymarfer; Buddion Cyfranogiad Disgyblion; Llwyddiannau a Heriau; Y camau nesaf; Arwyddo at ffynonellau cefnogaeth.

Mae'r sesiwn wedi ei anelu at ddisgybl lywodraethwyr cyswllt mewn ysgolion Uwchradd; cynghorwyr ysgol a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am gyfranogiad disgyblion yn yr ysgol. Prif nod y sesiwn yw datblygu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ymysg llywodraethwyr, fel y gallant hyrwyddo a datblygu'n fwy effeithiol gyfranogiad gweithredol y disgyblion mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn ysgolion.

Hwyluswyr

Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru a Terry O'Marah, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint

RHEOLI CWYNION

Dyddiad: **Dydd Mawrth 18 Hydref 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Digwyddiad ar y cyd yw hwn gyda llywodraethwyr o Sir Ddinbych a Wrecsam

Trosolwg o'r sesiwn

Mae gan bob ysgol ddyletswydd statudol i fod â Gweithdrefn Gwyno, ac mae'n rhaid ei chyhoeddi a sicrhau ei bod ar gael ar gyfer rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr. Mae'n bwysig bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o weithdrefnau cyfredol ac o ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd).

Bydd y sesiwn yn:

Codi ymwybyddiaeth o egwyddorion a gofynion canllaw LICC ar Weithdrefnau Cwyno;

Cydnabod y gwahanol fathau o gwynion a sut y dylid eu trafod;

Deall rôl eraill wrth drafod cwynion;

Datblygu polisi cwyno;

Rheoli'r broses gwyno;

Hwylusydd

Steve Gullick, Rheolwr, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, Prifysgol Fetropolitan Abertawe

YMSEFYDLU LLYWODRAETHWYR NEWYDD

Dyddiad: **Dydd Mercher 19 Hydref 2011**

Amser: **9.30am – 12.00 Hanner Dydd**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Cynulleidfa darged: Llywodraethwyr newydd a benodwyd yn ddiweddar. Digwyddiad ar y cyd yw hwn gyda llywodraethwyr o Sir Ddinbych a Wrecsam

Trosolwg o'r cwrs:

Bydd y sesiwn yn darparu cyflwyniad cyffredinol i'r rôl o fod yn llywodraethwr newydd, er enghraifft:
Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud? Beth yw'n cyfrifoldebau? Beth yw ein rôl strategol? Beth yw ein rolau monitro a gwerthuso? Beth yw rôl y Gadair? Beth yw rôl y Clerc? Sut mae gwneud ein cyfarfodydd yn fwy effeithiol?

Hwylusydd:

Steve Gullick, Rheolwr, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, Prifysgol Fetropolitan Abertawe

IECHYD A LLES MEWN YSGOLION

Dyddiad: **Dydd Llun 7 Tachwedd 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Trosolwg o'r cwrs

Blaenoriaethau iechyd yng Nghymru

Lles disgyblion a staff

Arweiniad ar Addysg Rhyw

Polisïau ac arweiniad

Hwyluswyr

Marina Carter, Cydlynydd ABCh ac Ysgolion Iach; Andrew Johnson, Swyddog Ysgolion Iach

CYNHADLEDD LLYWODRAETHWYR YSGOL GOGLEDD CYMRU A PHOWYS

Dyddiad **Dydd Iau 17 Tachwedd 2011**

Amser: **9.15am – 15.30pm**

Lleoliad: **Adeilad Technium CAST, Bangor**

Sylwer mai Llywodraethwyr Cymru sy'n trefnu'r digwyddiad yma

Thema'r Gynhadledd: Codi'r Safon

Prif Siaradwr: Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Sut bydd lywodraethwyr ysgol yng Nghymru yn ymateb i heriau:

Codi'r safon mewn llythrennedd?

Codi'r safon mewn rhifedd?

Torri'r cyswllt rhwng amddifadedd yn y teulu a thangyflawni'r dysgwr?

Gweithdai ar:

Integreiddio Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol gyda Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn;

Gweithio gyda Cholegau AB;

Uned Safonau yr Adran dros Addysg a Sgiliau;

Deall a defnyddio data perfformiad ysgol

I archebu lle:

Llywodraethwyr Cymru: 02920 731 546

contact@governorswales.org.uk

RÔL STRATEGOL LLYWODRAETHWYR

Dyddiad: **Dydd Llun 21 Tachwedd 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Digwyddiad ar y cyd yw hwn gyda llywodraethwyr o Sir Ddinbych a Wrecsam

Trosolwg o'r cwrs

Gweithdy rhyngweithiol yw hwn sy'n edrych ar rôl strategol ac arweinyddol llywodraethwyr. Mae'r sesiwn yn canolbwyntio ar yr hyn a olygir wrth strategol. Bydd yn archwilio ffyrdd y gall corff llywodraethu gynllunio, monitro a gwerthuso perfformiad yr ysgol a'i staff ac mae'n edrych ar rôl y 'cyfaill beirniadol' wrth sicrhau gwelliant cynaliadwy.

Hwylusydd

Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru

CYFARFOD O GYMDEITHAS LLYWODRAETHWYR SIR Y FFLINT

Dyddiad: **Dydd Mawrth 29 Tachwedd 2011**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn

Mae Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir y Fflint yn:

(fforwm annibynnol pwysig ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn Sir y Fflint sy'n cynnwys cynrychiolydd enwebedig o bob ysgol;
(derbyn gwybodaeth gan yr Awdurdod Lleol, Llywodraethwyr Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn cynnal dialog gyda hwy ar faterion sy'n effeithio trefniadaeth ac effeithiolrwydd ysgolion;
 darparu gwybodaeth reolaidd i gyrff llywodraethu ar waith y Gymdeithas ac yn annog Cyrff Llywodraethu i drafod materion sydd o bwys cyffredin;
(hwyluso cyfnewid syniadau ac yn darparu cyfleoedd i gronni profiadau tebyg;
(hybu cymhwysedd ac effeithlonrwydd ymysg cyrff llywodraethu;
Dosbarthir agenda'r cyfarfod i'ch Corff Llywodraethu cyn y cyfarfod, ond os hoffech gynnig eitem agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fyddech gystal â hysbysu Kim Brookes, Rheolwr Staffio a Llywodraethu Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

HUNANWERTHUSO A DEALL DATA PERFFORMIAD YSGOL

Dyddiad: Dydd Iau 19 Ionawr 2012

Amser: 1.00pm – 3.30pm

Lleoliad: Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug

Digwyddiad ar y cyd yw hwn gyda llywodraethwyr o Sir Ddinbych a Wrecsam

Trosolwg o'r sesiwn:

Mae hunanwerthuso wrth graidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin; bydd arolygwyr ysgol yn seilio llawer o'u 'trywydd ymholi' ar adroddiad hunanwerthuso'r ysgol. Pa mor effeithiol yw eich hunanwerthuso chi?

Hefyd, byddwn yn edrych ar ddata perfformiad ysgol ar gyfer y rhai hynny ohonoch nad sy'n deall ystadegau, a heb lefel A mewn mathemateg! Byddwn yn amlygu'r hyn y mae'n rhaid i lywodraethwyr fod yn ymwybodol ohono a pha gwestiynau y mae'n rhaid eu gofyn ....Pa mor dda mae'n ysgol ni'n perfformio? A yw ein perfformiad yn gwella? Beth yw ein harferion da ni? Pwy sy'n tanberfformio?

Hwyluswyr: Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru; **Terry O' Marah,** Llywodraethwr Ysgol Uwchradd John Summers

RHEOLI DISWYDDIADAU YSGOL

Dyddiad: **Dydd Mawrth 7 Chwefror 2012**
Amser: **9.30am – 11.00am**
Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Cynulleidfa darged: prifathrawon a llywodraethwyr

Trosolwg o'r sesiwn

Y cefndir cyfreithiol
Ymgynghori â staff a'u hysbysu
Dethol staff i'w diswyddo

Hwylusydd

Kim Brookes, ACIS, DBA, Rheolwr Staffio a Llywodraethu Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint

RHEOLI CYLLIDEB YSGOL

Dyddiad: **Dydd Mawrth 21 Chwefror 2012**
Amser: **7.00pm – 8.30pm**
Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Trosolwg o'r Cwrs

Datblygu dealltwriaeth gyffredinol ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau ariannol llywodraethwyr;

Cyfrifo cyfrannau cyllideb ysgolion

Hwylusydd

Swyddogion Cyllid, Cyngor Sir y Fflint

CYFARFOD O GYMDEITHAS LLYWODRAETHWYR SIR Y FFLINT

Dyddiad: **Dydd Mercher 14 Mawrth 2012**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Noder mai digwyddiad ar gyfer Llywodraethwyr Sir y Fflint yn unig yw hwn.

Mae Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir y Fflint yn:

★ fforwm annibynnol pwysig ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn Sir y Fflint sy'n cynnwys cynrychiolydd enwebedig o bob ysgol;

★ derbyn gwybodaeth gan yr Awdurdod Lleol, Llywodraethwyr Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn cynnal dialog gyda hwy ar faterion sy'n effeithio trefniadaeth ac effeithiolrwydd ysgolion;

★darparu gwybodaeth reolaidd i gyrff llywodraethu ar waith y Gymdeithas ac yn annog Cyrff Llywodraethu i drafod materion sydd o bwys cyffredin;

★ hwyluso cyfnewid syniadau ac yn darparu cyfleoedd i gronni profiadau tebyg;

★ hybu cymhwysedd ac effeithlonrwydd ymysg cyrff llywodraethu;

Dosbarthir agenda'r cyfarfod i'ch Corff Llywodraethu cyn y cyfarfod, ond os hoffech gynnig eitem agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fyddech gystal â hysbysu Kim Brookes, Rheolwr Staffio a Llywodraethu Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

HUNANWERTHUSO AR GYFER LLYWODRAETHWYR YSGOL

Dyddiad: **Dydd Mawrth 20 Mawrth 2012**

Amser: **7.00pm – 8.30pm**

Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Digwyddiad ar y cyd yw hwn gyda llywodraethwyr o Sir Ddinbych a Wrecsam

Trosolwg o'r sesiwn:

Mae hunanwerthuso wrth graidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin; bydd arolygwyr ysgol yn seilio llawer o'u 'trywydd ymholi' ar adroddiad hunanwerthuso'r ysgol. Pa mor effeithol yw eich hunanwerthuso chi?

Hwylusydd: Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru

RÔL CLERC Y LLYWODRAETHWYR

Dyddiad: **Dydd Iau 22 Mawrth 2012**
Amser: **9.30am – 11.30am**
Lleoliad: **Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, ger y Brif Dderbynfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug**

Cynigir y sesiwn hwn fel digwyddiad ar y cyd gyda Chlercod/ Cadeiryddion o Sir Ddinbych a Wrecsam

Trosolwg o'r sesiwn

Trosolwg byr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cyrff Llywodraethu

Rôl y clerc fel ysgrifennydd gan gynnwys gosod agenda a chymryd cofnodion

Gwahoddir cadeiryddion i fynychu am ei bod hi'n bwysig eu bod yn deall y berthynas statudol rhwng y ddwy brif rôl yma ar y corff llywodraethu.

Cyfle i rwydweithio am mai digwyddiad ar y cyd yw hwn gyda chydweithwyr o ysgolion Sir Ddinbych a Wrecsam.

Hwyluswyr:

Kim Brookes, ACIS, DBA; Liz Egan, CIPD, Rheolwyr Staffio a Llywodraethu Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint

FFURFLEN ARCHEBU

A fyddech gystal â chwblhau a dychwelyd y slip yma i'r Gwasanaethau Staffio a Llywodraethu, neu e-bostio faye.davey@flintshire.gov.uk

Dymunaf archebu lle(oedd) ar y cyrsiau canlynol:

ENW'R YSGOL……

CWRS	DYDDIAD	ENW'R PERSON SYDD I FYNYCHU
Iechyd a Diogelwch	21/09/2011 Gyda'r nos	
Canllawiau Gwrth-fwlio	27/09/2011 Gyda'r nos	
'Anelu am Aur' Marc	26/09/2011	

Ansawdd ar Gyfer Llywodraethwyr Ysgol	Gyda'r nos	
Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg	03/10/2011 Gyda'r nos	
Rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr	06/10/2011 Trwy'r dydd	
Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	11/10/2011 Gyda'r nos	
Cyfranogiad Disgyblion	12/10/2011 Bore	
Rheoli Cwynion	18/10/2011 Gyda'r nos	
Ymsefydlu Llywodraethwyr Newydd	19/10/2011 Bore	
Iechyd a Lles	07/11/2011 Gyda'r nos	
Rôl Strategol Llywodraethwyr	21/11/2011 Gyda'r nos	
Cyfarfod o Gymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint	29/11/2011 Gyda'r nos	
Hunanwerthuso a deall Data Perfformiad Ysgol	19/01/2012 Prynhawn	
Rheoli Cyllideb Ysgol	21/02/2012 Gyda'r nos	
Rheoli Diswyddiadau Ysgol	07/02/2012 Bore	
Cyfarfod o Gymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint	14/03/2012 Gyda'r nos	
Hunanwerthuso	20/03/2012 Gyda'r nos	
Rôl y Clerc	22/03/2012 Bore	